# CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 30 Mawrth, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd H.C. Hamilton, Dr. I.J. Johnson a M.J.G. Morgan.

## C261 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod y Cabinet ac atgoffodd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr ddiffodd eu meicroffonau pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a phe bai cyfranogwr yn dymuno siarad, a allai roi ei law i fyny (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth ‘codi llaw’.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth ‘sgwrs’ er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth ‘sgwrs’ i dynnu sylw at unrhyw fater technegol a/neu i gael sylw'r cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## C262 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

## C263 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

## C264 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C265 ADOLYGIAD ARDAL FFIN GYMUNEDOL CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, dyddiedig 23 Mawrth 2023.

Dywedodd yr Arweinydd y cafwyd trafodaeth gynhwysfawr ynghylch y cynigion yn y cyfarfod a oedd yn ymwneud â chynrychiolaeth wleidyddol effeithiol ar draws Bro Morgannwg, eglurhad yn ymwneud â rhai ffiniau, a lefelau priodol o gynrychiolaeth. Rhestrwyd yr ystyriaethau allweddol a ddefnyddiwyd fel sail i'r adolygiad ym mharagraff 2.8 o'r adroddiad, a adolygwyd gan weithgor trawsbleidiol, ynghyd â'r Tîm Cofrestru Etholiadol, er mwyn cynhyrchu awgrymiadau i'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol eu hystyried.

Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys cydweithio rhwng cynghorau cymuned, cynnydd yn y boblogaeth, maint y cynghorau cymuned, a nifer yr etholwyr.

Roedd y sylwadau a dderbyniodd y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol eisoes wedi'u hanfon at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“Comisiwn Ffiniau”) ac argymhellwyd y dylid anfon sylwadau'r Cabinet hefyd at y Comisiwn Ffiniau, ynghyd â barn y Tîm Cofrestru Etholiadol a chynghorau tref a chymuned o bob rhan o Fro Morgannwg, er mwyn eu defnyddio yn y cam nesaf.

Roedd yr Arweinydd wedi derbyn dwy neges bellach ar y mater: roedd un mewn perthynas â Chyngor Cymuned Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elai, a oedd yn anhapus gyda'r cynigion. Byddai eu sylwadau'n cael eu hanfon at y Comisiwn Ffiniau, ond gallent hwythau hefyd gyflwyno eu sylwadau eu hunain i'r comisiwn. Neges gan y Cynghorydd Perry oedd y llall, a oedd yn gefnogol ar y cyfan, ond a oedd hefyd yn trafod y newid sydd wedi bod yn nifer y clercod o'i gymharu â nifer y cynghorau cymuned, y gellid fod eu hangen pe cytunwyd ar y cynigion.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson, fel is-gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, y cafwyd cyfraniad da gan gynghorwyr tref a chymuned yn y cyfarfod, a'u bod wedi nodi eu hawgrymiadau. Dywedodd fod rhaid iddynt barhau i fod yn gyrff hyfyw ar gyfer y dyfodol, gydag etholiadau sy'n cynrychioli'r gymuned, a'i fod yn gobeithio gweld cynghorau cymuned yn cydweithio mwy yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd John, gan ei fod wedi bod yn ymwneud â chynghori a drafftio ymateb ar ran etholwr, y byddai'n ymatal rhag pleidleisio ar y mater.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD wedi hynny-

(1) Y DYLID nodi bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2023 mewn perthynas â'r adolygiad eisoes wedi'u hanfon at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“y Comisiwn Ffiniau”).

(2) Y DYLID anfon yr awgrymiadau a wnaed gan Gyngor Bro Morgannwg, fel y'u nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, at y Comisiwn Ffiniau.

(3) Y DYLID cymeradwyo'r defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y'i nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor, fel y gellir anfon sylwadau'r Cabinet mewn perthynas â'r adolygiad at y Comisiwn Ffiniau ar fyrder wedi'r dyddiad cau ar gyfer ymgynghori, sef 28 Mawrth 2023.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1 a 2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Er mwyn cwrdd â dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 28 Mawrth 2023.

## C266 CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2023, fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Dywedodd yr Arweinydd y trafodwyd y gyllideb refeniw, Cynllun Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol 2023, a'u bod yn parhau i drafod sut y gellir lledaenu'r wybodaeth er mwyn sicrhau bod y rhai o fewn awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth yn derbyn yr holl wybodaeth am y cynigion.

PENDERFYNWYD – Y DYLID nodi cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi'r cofnodion.

## C267 GWEITHGAREDDAU LEFEL GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/2024 (AG/PA) (CRAFFU – Y GYD) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y camau blaenoriaeth, fel y'u hadlewyrchir yn y cynlluniau gwasanaeth a'r targedau perfformiad gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2023/2024 a fyddai'n cyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd fod paragraffau 2.22 i 2.27 yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o sylwadau ac argymhellion pob Pwyllgor Craffu a bod pob Pwyllgor Craffu wedi nodi a chymeradwyo'r gweithgareddau cynlluniedig.

Roedd hwn yn fater i'r weithrediaeth ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID cymeradwyo'r gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2023/24, fel y'u cynhwyswyd yn y cynlluniau gwasanaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A o'r adroddiad.

(2) Y DYLID cymeradwyo'r mesurau arfaethedig a'r targedau perfformiad gwasanaeth sy'n cyd-weddu â Fframwaith Mesurau Perfformiad y cynllun corfforaethol ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad B o'r adroddiad.

(3) Y DYLID cymeradwyo'r defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau cynlluniedig y gwasanaeth a thargedau perfformiad cysylltiedig sy'n cyd-weddu â Chynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 yn cael eu monitro o 1 Ebrill 2023 ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn sicrhau bod cyfraniadau gwasanaeth y gweithgareddau cynlluniedig sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gwasanaeth a thargedau perfformiad cysylltiedig yn adlewyrchu'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/2024, ac y byddent yn galluogi'r cyngor i ddangos ei fod yn gweithio tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn.

(2) Er mwyn sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o fesurau perfformiad a thargedau y gellid eu monitro a'u mesur yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn ystod 2023/2024, yn unol â gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

(3) Byddai sicrhau bod y Cabinet yn cymeradwyo gweithgareddau lefel gwasanaeth a thargedau perfformiad gwasanaeth ar gyfer 2023/2024, ochr yn ochr â’r Cynllun Cyflawni Blynyddol a gymeradwywyd yn ddiweddar (6 Mawrth 2023, cofnod C226), hefyd yn galluogi’r cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol i osod a chyhoeddi ei amcanion llesiant yn llawn ac amlinellu sut y mae’n bwriadu cyflawni’r amcanion hynny yn ystod y flwyddyn.

**C268 CYD-DDATGANIAD O FWRIAD A MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH ECO4 FLEX (DA/LC) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd diweddaru'r Cabinet ar gynllun Rhwymedigaeth Ynni (ECO4), a dirprwyo pŵer penodedig i alluogi'r cyngor i gymryd rhan yn elfen ECO4 Flex y cynllun.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn gynllun hynod ddiddorol a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o drigolion Bro Morgannwg.

Roedd hwn yn fater i'r weithrediaeth ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID cymeradwyo cyfranogiad y cyngor yng nghynllun ECO4 Flex.

(2) Y DYLID cadarnhau mai'r Cyfarwyddwr Lle yw'r unigolyn cyfrifol penodedig ar gyfer cynllun ECO4 Flex a llofnodydd awdurdodedig y Cyd-ddatganiad o Fwriad a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

(3) Y DYLID dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle, mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy, i gytuno ar fformat terfynol Datganiad o Fwriad ar y Cyd a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ECO4 Flex ac unrhyw newidiadau teipograffyddol angenrheidiol a mân ddiwygiadau iddynt cyn eu cyhoeddi, ac yna'u hysbysu am unrhyw ddiweddariadau ffeithiol mewn ymateb i newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol, fel y bo'n briodol.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Er mwyn hysbysu'r Cabinet am y sefyllfa bresennol a sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'r cyngor fod yn cymryd rhan yng nghynllun ECO4 Flex.

(2) Er mwyn bodloni gofyniad cymhwyster ar gyfer cynllun ECO4 Flex.

(3) Er mwyn ymgymryd ag unrhyw newidiadau a/neu ddiwygiadau angenrheidiol o ganlyniad i bolisi a chanllawiau diwygiedig ac i'w galluogi i gywiro unrhyw wallau teipio neu fân wallau a geir yng Nghyd-ddatganiad o Fwriad a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ECO4 Flex, heb yr angen i geisio cymeradwyaeth y Cabinet.

**C269 ARIANNU A DARPARU GWASANAETH CLUDIANT CYMUNEDOL GREENLINKS (DA/LC) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cytuno i barhad Cyfraniadau Cynllunio Trafnidiaeth Gynaliadwy (cyllid Adran 106) ar gyfer Gwasanaeth Cludiant Cymunedol Greenlinks tan 31 Mawrth 2024.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod COVID-19 wedi cael effaith andwyol ar wasanaethau o'r fath, a gofynnodd am ddulliau gwell i hyrwyddo'r gwasanaeth ymhlith trigolion a chynghorau tref a chymuned er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r cynllun. Roedd gwasanaethau o'r fath yn galluogi'r rhai na fyddai fel arall yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fyw'n annibynnol.

Roedd hwn yn fater i'r weithrediaeth ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

(1) Y BYDDAI Gwasanaeth Cludiant Cymunedol Greenlinks yn parhau i gael ei ariannu gan Gyfraniadau Trafnidiaeth Gynaliadwy Adran 106 tan 31 Mawrth 2024.

(2) Y DYLID cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet yn ddiweddarach yn 2023, unwaith yr ymchwilir i ffynonellau cyllid eraill er mwyn prynu cerbyd newydd a pharhau i gynnig y gwasanaeth ar ôl 1 Ebrill 2024.

(3) Y DYLID clustnodi cyfraniadau A106, a amlygwyd yn Atodiad D, i ariannu'r gwasanaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2023/2024, oni bai y dynodir ffynonellau cyllid eraill.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Er mwyn parhau i ddarparu dull hyblyg o gludo teithwyr ar gyfer y rhai na all gael mynediad hawdd at fathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus mewn modd cost-effeithiol a dibynadwy.

(2) Er mwyn caniatáu i ffynonellau cyllid eraill, megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin a grant Llywodraeth Cymru, gael eu hystyried i ariannu'r gwasanaeth yn y tymor hwy ac i gynorthwyo i brynu cerbydau newydd.

(3) Er mwyn parhau i ddarparu Gwasanaeth Cludiant Cymunedol Greenlinks tan 31 Mawrth 2024.

**C270 RHAGLEN DIGWYDDIADAU ARFAETHEDIG 2023 – 2024 (DA/LC) (CRAFFU AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a’i ddiben oedd diweddaru’r Cabinet ar Raglen Digwyddiadau 2022/23 a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y rhaglen digwyddiadau arfaethedig ar gyfer 2023/24 a’r trefniadau ariannu cysylltiedig.

Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd fod y bartneriaeth wedi gweithio gyda sefydliadau eraill a oedd wedi galluogi’r rhaglen o ddigwyddiadau i gael ei chynnig mewn cyfnod o anhawster ariannol, a amlygwyd ym mharagraffau 1.5 i 1.10 o’r adroddiad, a oedd o fudd uniongyrchol i drigolion Bro Morgannwg, yn ogystal â masnachwyr a busnes a’r economi yn gyffredinol.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod angen i bobl a oedd eisiau cynnal digwyddiadau roi cymaint o rybudd â phosibl i'r cyngor gan ei bod yn cymryd amser i roi'r holl faterion angenrheidiol ar waith.

Dywedodd yr Arweinydd fod y tîm digwyddiadau wedi gwneud llawer o waith a bod y cyngor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned yn gynyddol dros y blynyddoedd diwethaf i gefnogi eu digwyddiadau ac i ddatblygu gweithgareddau a fyddai'n annog pobl i ddod i ymweld â'r cyrchfannau gwyliau neu ailymweld â chanolfannau siopa Bro Morgannwg.

Roedd hwn yn fater i'r weithrediaeth ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen lwyddiannus digwyddiadau 2022/23, ynghyd â'r cynnydd yn y defnydd o'r wefan Ymweld â'r Fro a'r cyfryngau cymdeithasol.

(2) Y DYLID cymeradwyo'r gyfres arfaethedig o ddigwyddiadau mewn Rhaglen Digwyddiadau Corfforaethol ddiwygiedig ar gyfer 2023/24, fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad ac yn Atodiad A.

(3) Y DYLID awdurdodi'r defnydd o arian wrth gefn ar gyfer 2023/24 i gyfrannu at y gyllideb gyffredinol ar gyfer y Rhaglen Digwyddiadau Corfforaethol, a'r cynigion i leihau'r defnydd o'r gronfa wrth gefn trwy gyfuniad o godi tâl / incwm ffioedd, incwm arall, cyllid grant, nawdd, a sicrhau digwyddiadau cynaliadwy a allai fod yn hunangynhaliol.

(4) Y DYLID dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Lleoedd Cynaliadwy, i wneud newidiadau i'r rhaglen ddigwyddiadau / cymeradwyo dyraniad cyllid i ddigwyddiadau penodol o fewn y gyllideb gyfan y cytunwyd arni.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn galluogi Rhaglen Ddigwyddiadau 2023/24 i fynd rhagddi.

(3) Er mwyn cymeradwyo defnyddio arian wrth gefn i gyfrannu at y gyllideb gyffredinol ar gyfer digwyddiadau.

(4) Er mwyn caniatáu i benderfyniadau ar ddigwyddiadau gael eu gwneud gydol blwyddyn ariannol 2023/24.

## C271 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2024/25 (ACG) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet o ganlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar drefniadau derbyn i ysgolion ar

gyfer ysgolion cymunedol, yn unol â Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

Roedd hwn yn fater i'r weithrediaeth ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi'r adroddiad a'r atodiadau.

(2) Y DYLID cymeradwyo'r Polisi Derbyn i Ysgolion yn Atodiad A.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod er mwyn dod i benderfyniad erbyn 15 Ebrill 2023.

(2) Roedd yn ofynnol i'r cyngor adolygu ac ymgynghori ar dderbyniadau i ysgolion yn flynyddol ac adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac unrhyw gynigion a ddeilliodd ohono.